# ***Cefnogi Newid*: Gwisg Ysgol**

**Astudiaeth Achos 3**

## Gwybodaeth

**Ysgol Gynradd y Gnoll, Castell-nedd**

350 o Ddysgwyr

41% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim

## Y prif feysydd o dan sylw

- ✓ Cost a fforddiadwyedd
- ✓ Hyrwyddo'r Grant Hanfodion Ysgol
- ✓ Ailgylchu

## Yr Angen a Amlygwyd

Wrth i gostau byw godi ac yn wyneb colli swyddi'n lleol a'r hinsawdd economaidd bresennol, gwelwyd bod angen i ni addasu er mwyn sicrhau bod gwisg ysgol o fewn cyrraedd pawb, wrth i ni barhau i arddel gwerthoedd a manteision gwisgo gwisg ysgol. Hefyd, roedd mwy o'n teuluoedd yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer cymorth banc bwyd ac yn gofyn am wisg ysgol ail law

## Cost y newid

Dim costau: cyfraniadau yw'r eitemau ac mae trefniadau atgyfeirio a gweithredu amlasiantaeth effeithiol ar waith.

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

## Camau a gymerir

- ✓ Cyflwyno **crysau polo tywyllach eu lliw**
- ✓ Cyflwyno **logos i'w smwddio ar y dillad** i leihau costau
- ✓ **Cyflwyno 'siop gyfnewid',** ar gyfer gwisg ysgol ond hefyd ar gyfer Diwrnod y Llyfr, gwisgoedd eraill, esgidiau pêl-droed ac ati
- ✓ **Llythyrau newyddion a negeseuon testun** rheolaidd i atgoffa teuluoedd am y cymorth sydd ar gael
- ✓ **Atgyfeirio** i'r banc bwyd ac eraill

## Pwy sy'n cymryd rhan?

- ✓ Ysgol
- ✓ Rhieni / gofalwyr a'r gymuned
- ✓ Gwasanaethau (e.e. TAF, y banc bwyd)

**Ysgol:** Mae'r staff yn adnabod y teuluoedd yn dda iawn, yn dringar, yn gynnil ac yn meithrin cysylltiadau cadarnhaol â theuluoedd.

**Rhieni / Gofalwyr a'r gymuned:** Mae teuluoedd yn cael gwybod am yr hyn sydd ar gael ac yn defnyddio'r gwasanaethau. Ceir cyfraniadau hefyd gan deuluoedd a'r gymuned ehangach.

**Gwasanaethau:** Gwneir atgyfeiriadau trwy e-bost. Gwelir ei fod yn ddull effeithiol iawn o gyrchu cymorth ychwanegol.

## Effaith a chanlyniadau

- ✓ Mae teuluoedd yn fwy **abl i ddarparu bwyd a dillad i'w plant**
- ✓ **Llai o straen a phryder** ar rieni/gofalwyr
- ✓ Mae'r rhieni'n gweld yr ysgol fel **rhan gefnogol o'r gymuned ehangach**
- ✓ **Atgyfeirio** mwy o **deuluoedd ar gyfer cymorth**
- ✓ **Cynyddu dealltwriaeth o fudd-daliadau a mynediad atynt**
- ✓ ***"Darpariaeth dringar a gynllunnir yn ofalus"*** Estyn

## Y rhwystrau a gafodd sylw

Pryder rhieni ynghylch gofyn am gymorth. Mae ein sgyrsiau gyda theuluoedd am bresenoldeb disgyblion wedi arwain at drafod pwysau ariannol a'r cymorth sydd ar gael.

## Cyngor i ysgolion eraill

Gwerthuso anghenion cymuned yr ysgol a chael hyd i ddull gweithredu sy'n addas i'ch ysgol chi.

## Eisiau gwybod mwy?

Gallwch gysylltu â'r ysgol i gael rhagor o wybodaeth am y dull gweithredu: evansf73@hwbcymru.net